Gwaith haearn hanesyddol Brymbo yn datgelu ei



Yr adeilad wedi'i adfer ar gyfer Stori Brymbo, o'r 1920au. Credyd delwedd: Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Mae'r hen waith haearn a dur ger Wrecsam, gogledd Cymru, wedi'i drawsnewid yn atyniad i ymwelwyr, canolfan gymunedol a gofod busnes.

Mae Stori Brymbo wedi dod â chyfleusterau, swyddi, hyfforddiant a phrentisiaethau newydd i'r ardal.

Mae hefyd wedi'i warchod ac agor ei "goedwig ffosilau" 300 miliwn o flynyddoedd oed i ymwelwyr. Darganfuwyd y safle o bwysig rhyngwladol yn ystod mwyngloddio glo brig yn 2003.

Ailddychmygu etifeddiaeth ddiwydiannol

Sefydlwyd gwaith Brymbo gan y diwydiannwr John 'Iron Mad' Wilkinson (1728–1808) a wnaeth ei ffortiwn yn arloesi mewn gweithgynhyrchu nwyddau haearn.

Yn dilyn llwyddiant ei fusnes toddi haearn a dyfeisio technolegau newydd, dechreuwyd cynhyrchu dur ar y safle o 1885. Ffynnodd y busnes yn ystod y degawdau canlynol.

Fodd bynnag, canrif yn ddiweddarach daeth tro ar fyd. Yn dilyn dirywiad y diwydiant yn y 1970au a'r 1980au, dioddefodd Brymbo yn enbyd ac yn y diwedd daeth cynhyrchu i ben yno yn 1990. Gadawyd y safle fwy neu lai'n wag



Dyfodol newydd

Nawr mae'r safle yn croesawu ymwelwyr yn ôl trwy ei ddrysau ac yn creu cyfleoedd newydd i bobl leol weithio, dysgu a chwarae.

Mae disgwyl i'r safle ddenu hyd at 37,000 o ymwelwyr bob blwyddyn, mae'r prosiect wedi:

- Hadfer y Siop Beiriannau a'i hailbwrpasu fel canolfan ymwelwyr fydd yn cynnwys arddangosfa celfyddydau, siop a chaffi, gofodau swyddfa/gweithdy i'w rhentu a gofod hyblyg ar gyfer dysgu a chyfarfodydd.
- Ailbwrpasu'r Gweithdy Patrwm a Seiri fel gofod dehongli a digwyddiadau, ynghyd â gweddill adeiladau'r gwaith haearn, a fydd yn dod ym mis Medi.
- Creu awyrgylch dan do, wedi ei ddiogelu i gloddio a chyflwyno'r goedwig ffosilau, gan alluogi ymwelwyr i fynd ar daith gronolegol drwy hanes Brymbo o ffosilau i lo, haearn i ddur, cau i adnewyddu.
- Adnewyddu a thrwsio strwythurau hanesyddol. Bydd rhain yn cynnwys T?'r Asiant sy'n adeilad Rhestredig Gradd II*, y Lofa Chwyth, a chyfres o adeiladau'r gwaith haearn gan gynnwys y Ffowndri, y T? Castio a'r Ffwrnais Chwyth.
- Cynnal gweithgareddau ymgysylltu a dysgu ar gyfer gwirfoddolwyr, pobl ag anableddau a phobl sydd ar incwm isel.

Mwy o wybodaeth

Cynlluniwch eich ymweliad â Stori Brymbo.

Chwilio am fwy o atyniadau treftadaeth i ymweld â'r haf hwn? Darganfyddwch beth sy'n agor ledled y DU.



efyd mewn ...

Bydd yr adeilad yn dod yn ganolfan gymunedol fywiog. Credyd: Steve Pope / FotoWales.



Sesiwn hyfforddi gyda'r gwirfoddolwyr. Credyd: Ymddiriedolaeth St Giles.



ais

Fe wnaethom gefnogi pobl Llandwrog i gymryd eu tafarn o'r 19eg ganrif i berchnogaeth gymunedol gyda grant o £1.8 miliwn. Delwedd: Ty'n Llan.

Holi ac Ateb gyda Grantï: cydweithio a chyllid wrth gefn yn allweddol i lwyddiant prosiect cymunedol